

## Robot Wars a Datganoli

I gyrraedd y Felinheli ar dy feic roedd rhaid mynd heibio i Ferodo. Yn gynta byddai rhaid ymuno â'r lôn feics, rywle rhwng Safeway a Phorth Waterloo. Lein syth o dan Blas Brereton ac ymlaen rhwng y coed a'r afon am Griffiths Crossing, o dan hen bontydd relwe, a Môn ar draws y dŵr. Lawr fanno roeddau ni'n stopio i chwarae den weithiau neu ddringo coed.

Cyn cyrraedd rowndabowt Plas Menai roedd rhaid pasio drwy dir Ferodo: y ffatri, oedd yn gwneud brêcs ceir, ar y chwith, a'r maes parcio tri-chwarter-gwag ar y dde, a hen bont goncrit prefab yn cysylltu'r ddau. Blot ar y tir oedd Ferodo: **honglad mawr o le** yn taflu'i gysgod nes gwneud i ti deimlo'n oer. Llwyd yn lle gwyrdd y dail; oglau rwber a chemegion ac oel a llosgi yn lle gwynt fferm a gwymon. Roedd y to yn rhesaid o drionglau miniog fel cefn crocodeil, neu ddannedd siarc. Oeddwn i wastad yn cael ias lawr fy nghefn wrth ei basio ac yn pedlo gymaint â hynny'n gynt i gael mynd heibio iddo'n **reit handi**.

\* \* \*

'Pssst. **Pwy ti'n meddwl geith hi heno?**' Llais Darren yn gyffro y tu ôl i mi.

Dwbwl Hanes am 10 ar fore Gwener gwlyb cynta'r hydref, ac Ysgol Gwaelod yn newydd a mawr a diarth i ni. Roedd yr athrawes yn mynd mlaen a mlaen am Streic y Penrhyn ond yn siarad yn rhy gyflym fel tasa ganddi rywle arall i fod ynddo. Roedd ffenest y dosbarth yn edrych dros y cantîn lle'r oedd tost a chypasŵp yn ein haros: a thu hwnt i hwnnw, tai Sgubor Goch.

'Dwi di darllan yn *Robot Wars Magazine*, bod na dîm o Blackpool heno yn dod â robot, sy'n medru fflipio robots erill *allan o'r arena!*'

'Sw'n i'n licio weld o'n trio fflipio Matilda neu Sir Killalot...'

'Ella neith o sdi. Ma'n masif ac yn gallu fflipio efo pŵar o 500 psi. Jest gobeithio fydd o ddigon hawdd mynd drw'r Gauntlet gynta...' **ebychodd** Darren, eisoes wedi gweithio drwy bob posibilrwydd yn ei ben.

'Hmm ia, *ma'r Pit of Oblivion* na yn reit anodd i'r robots mwya fynd heibio fo dydi...' sibrydais i, y pen-peiriannydd ac arbenigwr.

CRAC! Daeth pren mesur o nunlle i lawr **yn glewt** ar y ddesg gan wneud i'r ddau ohonon ni neidio: roedd yr athrawes wedi sleifio'n sydyn tu ôl i ni. Finau'n teimlo fel un o'r robotiaid mawr wedi'i guro gan y robot bach sydyn, slic ar dair olwyn. Ond wnaeth hynny ddim difetha'n cyffro: roedd ail bennod cyfres newydd Robot Wars ymlaen am 6.30.

\* \* \*

Mis Mawrth, a'r gwanwyn yn cael ei draed dano. Roedd coed y lôn beics yn deilio eto ac yn cynnig digon o lefydd da i guddio. 'Maa-am, ga i fynd i dŷ Darren am de nos fory plîs?' Siawns y gallen ni fynd yn syth i'r den o'r ysgol, a nôl i dŷ Darren erbyn iddi nosi; llowcio'n

swper yn barod at **yr ornest dyngedfennol** am 6.30. Hon oedd rownd derfynol y gyfres, y *finale* fawr.

Roedd ogla'r powdwr golchi'n drwm yn nhŷ Darren. Llowciodd y ddau ohonon ni ein waffls a'n fish fingers, cyn sgrialu i'r stafell fyw. Roedden ni'n hongian ar bob gair o enau Craig Charles y cyflwynydd, oedd yn **chwipio'n cyffro a'n cynddaredd** wrth i Panic Attack, Killertron, Cassius a Roadblock fynd benben â'i gilydd am y teitl. Yna'n berwi o syniadau, nôl wrth fwrdd y gegin, daeth y padiau papur a'r pensiliau lliw allan. Cegin fach oedd hi: golau strip a leino melyn, a dodrefn pîn golau.

Cyn i ni droi, roedd hi'n naw ac yn amser gwely, a bron dim ar ôl o'r pad papur. Efallai mai'r ffordd gleniaf o'i rhoi hi fyddai dweud bod ein prototeip ni yn **gysyniadol ddifyr** ac uchelgeisiol, ond bod ambell fwch i'w lenwi ar yr ochr dechnegol.

'Paid â poeni,' cysurodd Darren fi wrth fy ngweld yn anobeithio braidd. 'Fedar Dad helpu – mae o'n dda efo motors a ballu. Ella fedrith o gael partia Ferodo o'r gwaith os fyddwn ni'n sdyc.' Roedd hi'n bell wedi hanner nos arnon ni'n syrthio i gysgu o'r diwedd, a'n breuddwydion yn llawn o forthwylion a fflamau **a phigau ar ffyn**, a haenau ar haenau o fetel.

\* \* \*

Araf, a dweud y lleiaf, oedd cynnydd ein glasbrint. A dyddiad cau'r gyfres newydd yn yr hydref yn prysur nesáu, roedd angen fflach o ysbrydoliaeth o rywle, ac **eli penelin** i orffen y cynllun. Ddiwedd Mai, gyda gwyliau hanner tymor, daeth cyfle i roi'n pennau at ei gilydd eto.

'**Eto fyth?**' gofynnodd Mam mewn anghrediniaeth. 'Oeddw'n i'n meddwl bod y gyfres na 'di hen ddod i ben?'

'Ia ond ma gan Darren DVD, ac ma gynnon ni blan –'

'DVD? Be ar wynab y ddaear di peth felly?'

Roedd tad Darren newydd brynu chwaraewr DVD newydd, a'r cynllun oedd gwyllo'r gyfres i gyd, cwblhau dyluniad ein robot y diwrnod canlynol, ac roedd tad Darren wedi **addo'n rhoi ar ben ffordd** fore Sadwrn.

'Wel sut bynnag, fedri di'm mynd heno. Dan ni'n mynd i'r cei heno, cofio?'

'O be? Maaam!'

Torrodd Dad ar draws i esbonio'n bwylllog: 'Hanas yn cal 'i greu heno. Cofio chdi'n cal aros fyny hefo fi noson yr etholiad? Tost a marmalêd. Fyddi di'n ddiolchgar i ni pan fyddi di'n hŷn: alli di ddeud, mi oeddwn i yno.'

'Ond fydda i'm yno. Yng Nghaerdydd ma'r Cynulliad 'ma de. A'r consat mawr a'r parti a'r tân gwyllt.'

'Ia ond mi fydd na sgrîn bydd. Ti'm isio gollu fo, a **choelia i fawr** fod Darren chwaith – pam na fasa fo'n dod yno hefo chdi?'

Doedd dim amdani ond rhoi caniad i'w dŷ: 'Sori Darren. Dwi'n goro mynd lawr i cei heno.'

'O. Pam, be sy mlaen?' Holodd yntau'n **dawedog**.

'Consat. I ddathlu bod y Cynulliad yn agor. Hanas yn digwydd. Sgrîn fawr yn dangos bob dim o Gaerdydd – y ddynas Hey Big Spender na'n canu? A rhai bandia yn fyw yn Cei i ni hefyd.'

'Be, fatha Oasis lly? S Club 7?'

'Na. Topper dwi'n meddwl, a Catsgam ella.' Finnau'n **awdurdod pennaf**, ac yn ceisio tanio fy llais fy hun â brwdfrydedd.

'Hmmm...'

'Ma na ffair hefyd aparyntli. Olwyn fawr, hook-a-duck a candi fflos.'

'O ocê ta, welai di yna am 6. A ddoi â plans y prototeip efo fi iawn.'

'Iawn.' Ag ochenaid o ryddhad y rhois y ffôn yn ôl yn ei grud: doedd popeth ddim wedi'i gollu eto.

\* \* \*

Roedd y glaw yn chwipio i mewn o'r Fenai a'r gwynt yn gwneud i'r clychau ar hwyliau'r cychod bach yn y cei dincial. Roedd y lori â'r sgrin fawr ar ei chefn o flaen yr hen dŷ toll. Roedd criw bach, uwch y gwynt a'r clychau a'r atsain rhyfedd o dan waliau'r castell, yn trio gwrando ar yr areithiau a'r caneuon o Gaerdydd. Roedd pob un ohonyn nhw'n sefyll yn gefnsyth stond, a'u breichiau a'u coesau'n stiff, fel tasan nhw ar rewi.

Roedden ni'n sefyll ymhellach draw, ac roeddwn i'n ddigon bodlon â hynny rhag i neb o'r ysgol fy ngweld yng nghwmni fy mrawd a'm chwaer fach, ac yn waeth na dim fy rhieni hefyd. Er ei bod hi'n ddiwedd Mai, roedd hi'n teimlo'n fwy fel yr hydref, a'r stondinau ffair a'u goleuadau neon yn llachar yn y gwyll.

'Mam, ga i ffiffti pî i nôl candi fflos, pliiis?'

'Cei. Hwda. Ond dos â dy frawd efo chdi!'

'Maaaam...'

'Tyd â'r bunt na nôl ta –'

'Iawn, iawn – tyd ta Elis. Jysd paid â deud dim byd wrth neb, iawn.'

Cerddais rhwng y stondinau, ac Elis wrth fy nghynffon. Dyma sefyllian wrth gefn y criw yn gwyllo Kevin Lloyd yn bachu hwyaid, nes i Michael Lovell ein llygadu a gofyn i mi 'Pwy gynna chdi efo chdi fanna Alun, cariad newydd chdi?' Cochais i; **a dial ar fy mrawd bach druan** yn hytrach nag ar y criw, efo pinsiad go hegar.

Ond o leiaf, ar ôl goddef y ffrae gan Mam, roeddwn i'n rhydd. Anelais rhwng y stondinau eto, a diawlio na fuaswn i wedi trefnu lle ac amser penodol efo Darren. Roedd hi'n dechrau tywyllu go iawn erbyn hyn. Dyma fi'n gweu drwy'r dorf cyn belled â'r hen fan hufen iâ wrth bont Rabar. Roedd y bont wedi'i goleuo, a'r castell draw i'r dde hefyd, ac yn y pellter roedd y golau a'r yfwyr yn gorlifo allan o dafarn yr Anglesey yn barod ac yn canu o flaen y Floating Restaurant.

Ond doedd dim golwg o Darren yn unlle.

Erbyn i mi gyrraedd nôl at fy nheulu, roedd fy chwaer fach yn chwyrnu yn ei phram a Mam a 'mrawd wedi hanner maddau i mi. Gwenodd Dad o glust i glust ac **amneidio** arna i i glosio ato. Ildiais i, ac yno'n rhes a'n breichiau ymhleth y gwylodd y pump ohonom y canu a'r tân gwyllt a'r dathlu, a chydganu'r anthem efo'r sgrin, ychydig y tu ôl i Gaerdydd.

\* \* \*

Wedi'r gwyliau, doedd dim lliw na llun o Darren ar yr iard nac yn y dosbarth. Holais rai o'n ffrindiau o'r ysgol gynradd oedden nhw wedi ei weld? Dim clem gan Mathew. Roedd Adam wedi cael cip arno ben arall y maes fore Sadwrn efo'i fam, ond dim mwy. Aeth yr wythnos yn ei blaen, ond gwag oedd cadair Darren o hyd.

Y bore Llun canlynol, roedd yn ei ôl. Gwenais yn falch arno ar ôl cofrestru, ond sleifiodd allan heb edrych arna i. Collais o yn y ciw amser egwyl hefyd, ac roedd rhaid i mi aros mewn yn y wers Gerdd dros ginio. Dim ond wrth fynd drwy'r giât ddiwedd dydd y ces i fy nhaflu hefo fo i ganol y dorf.

'Lle oedda chdi?'

'Be?'

'Cei, nos lau hannar tymor. Lle oedda chdi?'

'Sori.'

'Sw'n i'n meddwl fyd! Sgynnon ni mond pythefnos wan tan dyddiad cau.' Erbyn hyn roedd pawb wedi mynd i'w gwahanol ffyrdd: y ciwiau am y bysus, rhai tua Min y Nant i gael llond poced o dda-da at y dro nôl adref i Faesinclla, a finnau a Darren yn ôl i gyfeiriad y topiau gan arafu'n camre. Atebodd o ddim. 'Darren... Tisio neud hyn ta be? Ma Mam yn dechra colli

mynadd, deud bo fi'n cal gormod o sleepovers, ond os tasio nos Wenar yma dwi'n siŵr fedra i –'

' – Ma Dad di cal sac o Ferodo.' Roedd Darren wedi stopio yn yr unfan. Baglais ar draws rhyw garreg, gwneud gormod o sioe o'i chicio, a chadw fy mhen i lawr wrth stopio.

'O. Sori glywad. Dyna pam oedda chdi –

'Ia. Sori. Odd o newydd glywad pnawn dydd lau.'

'Sa chdi di gallu ffonio fi i ddeud!'

'Sori.'

Mentrais daro cip i fyny ato. Roedd Darren yn edrych yn llai rywsut, ei ysgwyddau wedi **crebachu**. 'Geith o job arall rwla ceith?' Cynigiais.

'Lle lly?'

'Wel, dwnim,' ymbalfalais. 'Digon i ga'l, oes? Pan ddoth swydd dad i ben efo'r adran addysg, gath o job yn y coleg yn Bangor.'

'Dyn nw angan press operators yn coleg ti'n meddwl?'

'**Dio'm gwaeth â holi** am wn i nadi,' mentrais wenu. 'Eniwe. Ddo i draw nos Wenar yma i weithio ar y prototeip?'

Daeth rhyw banig i lygaid Darren wrth iddo chwarae â strap ei fag. 'Sori, di Mam ddim isio neb draw am dipyn – Dad yn flin, a ma hi isio trio neud i bwyd bara medda hi.'

'Ocê. Wel. Tyd di draw i tŷ fi ta? Gynnon ni ddigon o fwyd.' Am eiliad fflachiodd ei wyneb yn goch ac roeddwn i bron â chredu ei fod am fy nharo.

'Fasa dad chdi'n gallu helpu ni efo'r robot ti'n meddwl?'

Fy nhro i oedd hi i gochi rŵan. 'Ella... dwi'm yn siŵr... ma'n medru papuro wal de, a ma'n medru hitchio'r garafan i'r car yn reit handi...'

'Gawni weld ta ia.'

'Ia. Welai di,' ac yna roedd Darren yn troi i'r dde ac i lawr y bryn, finnau yn fy mlaen at y strydoedd coediog ar gyrion y dref.

\* \* \*

Daeth, ac fe aeth, dyddiad cau cyfres nesaf Robot Wars. Daeth yn bryd i ni adael Ysgol Gwaelod a mynd yn ofnus i ganol yr hogia mawr yn Ysgol Top. Roeddwn i wedi rhyw arnofio

i gylchoedd eraill o hogia o'r tu allan i'r dre – Bontnewydd, Llandwrog. Chwarae rygbi, nid ffwt, roedd yr hogiau hyn, **a reslo oedd yn mynd â'u bryd**, nid Robot Wars. Ond doedd gennym ni ddim Sky gartref.

Ryw flwyddyn yn ddiweddarach daeth y newydd bod holl weithwyr Ferodo yn mynd ar streic. Neu yn hytrach: roeddau nhw wedi troi fyny i'r gwaith un diwrnod a ffeindio bod y giât i'r maes parcio wedi chloi, a'r fforman yn dweud wrthyn nhw gymryd wythnos o wyliau. Rhywbeth am wneud y gwaith yn fwy 'effeithlon', yn fwy 'streamlined', ond gan wrthod talu i'r gweithwyr gael eu hyfforddi o'r newydd. Oedd Mam yn meddwl na fasa nhw mond yn para rhyw fis ar y mwya, ac mi fysan nhw'n ôl ar eu pennau.

Ond dyna lle buon nhw wedyn am fisoedd; gang o rhwng deg a deugain, weithiau, yn dibynnu ar y tywydd, yn dal eu placardiau ac yn chwifio ar y ceir wrth fynd heibio. Mi fysai Dad yn dangos ei gefnogaeth drwy ganu'r corn wrth fynd â ni i wers bianco neu'r ysgol ddrama ar ôl ysgol, a ninna fel mwncwns mewn caets yn gwenu'n wirion a chwifio o'r sêth gefn. Mi gawson nhw fwrdd mawr o rywle i sgrifennu THIS OFFICIAL DISPUTE IS NOW IN WEEK 21, a hen garafan fach racslud i wneud paned a chysgodi rhag glaw. **Mi fedyddiwyd honno** yn 'Ferodo Hilton'.

Un wythnos roedd lori wedi torri lawr ar beipas Felin a ninnau'n styc yn y traffic allan o'r dre. Dw i'n ei chofio hi'n grasboeth a'r car yn tynnu gwres. Roedd Dad yn flin achos roeddau ni'n rhy hwyr rwan beth bynnag, felly mi fysa raid troi nôl ar rowndabowt Griffiths Crossing a dod yn syth nôl adref. Siwrnai wast, ac yntau efo lot o waith marcio i'w wneud. Wrth gropian heibio i'r fynedfa i'r ffatri, gwelais fam Darren yn dod at y gweithwyr a llond ei haffla o gacennau. Chwifiais arni, ond wnaeth hi ddim fy nabod.

\* \* \*

Rhyfedd o fyd, ond mi allwch deithio ar hyd y lôn feics ar Google StreetView erbyn hyn. Ar YouTube wedyn, cewch weld clip byr o'r cyngerdd hwnnw ym Mae Caerdydd, a theimlo holl optimistiaeth yr anthem a'r tân gwyllt: torf fawr yn dathlu a chanu a dawnsio a chrio i'w fflag draig goch, a hynny yn union yn y twll, y tir lle byddai'r Senedd yn cael ei chodi maes o law. Cewch synnu gymaint mae'r cyfan wedi dyddio yn barod, fel y graen ar y ffil: bywyd arall lle roedd hi'n hawdd teimlo pethau mor syml â gwladgarwch a gobaieth. Ac wrth gwrs, mi allwch wyllo **faint fynner** o benodau o Robot Wars.

Wrth sbio nôl mae rhai atgofion yn teimlo fel celwydd, bron: dim fel'na roedd hi, does bosib? A phethau eraill yn teimlo gymaint cliriach, yn fwy byw rwan nag oedden nhw ar y pryd. Fel tasan nhw wedi'u **rhagordeinio** i fod yn rhan o ddilyniant penodol o ddigwyddiadau – o hanes – ac nid jest cyfres o bethau oedd yn digwydd naill ar ôl llall, bron ar hap. Pethau bychain **yn magu arwyddocâd**, o edrych yn ôl arnyh nhw a'u cyfodod â phethau bychain eraill.

Cafodd plac ei **ddadorchuddio**'n ddiweddar ar faes y dre i'r streicwyr. Ond bob tro rydw i nôl mae 'na bobol i'w gweld, pethau i'w gwneud, a dydw i byth yn cofio mynd i sbio. Dwi'n fwy cyfarwydd â'r Bae yn y fideo, erbyn hyn, nag ydw i â'r Cei yn y cof. Dwi'n seiclo heibio i'r

Senedd bob penwythnos, bron. Mae Darren yn athro Dylunio a Thechnoleg yn ein hen ysgol ni, dw i'n meddwl. Dyna mae Facebook yn ei ddweud, p'un bynnag.

Fuodd yr un ohonon ni'n dau ar Robot Wars chwaith.

<b>honglad mawr o le</b>	a great big hulk of a place
<b>reit handi</b>	fairly quickly
<b>Pwy ti'n meddwl geith hi?</b>	Who do you think will win?
<b>ebychodd</b>	he exclaimed
<b>yn glewt</b>	with a smack
<b>yr ornest dyngedfennol</b>	the critical match
<b>chwipio'n cyffro a'n cynddaredd</b>	whipping up our excitement and frenzy
<b>gysyniadol ddifyr</b>	conceptually interesting
<b>a phigau ar ffyn</b>	and sharp metal bars
<b>eli penelin</b>	elbow grease (i.e. hard work)
<b>Eto fyth?</b>	Yet again?
<b>addo'n rhoi ar ben ffordd</b>	promised us to show us the ropes
<b>choelia i fawr</b>	scarcely believe
<b>yn dawedog</b>	muted, taciturn
<b>awdurdod pennaf</b>	the chief authority
<b>a dial ar fy mrawd bach druan</b>	took revenge upon my poor younger brother
<b>amneidio</b>	to gesture or beckon
<b>crebachu</b>	to shrivel or shrink
<b>Dio'm gwaeth â holi</b>	Couldn't hurt him to ask
<b>a reslo oedd yn mynd â'u bryd</b>	and wrestling was their obsession
<b>Mi fedyddiwyd honno</b>	It was baptised
<b>faint fynner</b>	as many as you like
<b>rhagordeinio</b>	preordained/predestined
<b>yn magu arwyddocâd</b>	growing in significance
<b>dadorchuddio</b>	to unveil